CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU
PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

12 MAWRTH 2020

CYNLLUN HYFFORDDIANT PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU - 2020/21

ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

Cymeradwyo cynllun hyfforddi'r Bartneriaeth ar gyfer 2020/21

RHESYMAU:

Lluniwyd cynllun hyfforddi'r Bartneriaeth ar gyfer 2020/21 ac mae angen ei gymeradwyo.

Awdur yr Adroddiad:	**Swydd:**	**Rhif Ffôn: 01267 224160**
Chris Moore	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol **Cyngor Sir Gâr**	**e-bost:** **CMoore@carmarthenshire.gov.uk**

CRYNODEB GWEITHREDOL
CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

12 MAWRTH 2020

CYNLLUN HYFFORDDIANT PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU - 2020/21	
CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD Mae llunio cynllun hyfforddi yn un o'r eitemau sydd wedi'u cynnwys yng nghynllun gwaith y Bartneriaeth ar gyfer 2019/20, a gymeradwywyd gan y Cydbwyllgor Llywodraethu ar 27 Mawrth 2019. Cyflwynwyd Holiadur Gofynion Hyfforddiant y Bartneriaeth i bob aelod o'r Gweithgor Swyddogion a'r Cydbwyllgor, ac fe aseswyd yr ymatebion a gafwyd yn yr holiaduron a gwblhawyd wrth baratoi'r ddogfen hon. Mae'r cynllun hyfforddiant hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar fodloni anghenion hyfforddiant aelodau'r Gweithgor Swyddogion a'r Cydbwyllgor; fodd bynnag, gellid ei ymestyn i aelodau'r Pwyllgor Pensiynau, yn ogystal â chynrychiolwyr y Bwrdd Pensiynau, os yw'n berthnasol. Lluniwyd y cynllun hyfforddiant hwn yn atodol i'r hyfforddiant Awdurdodau Cyfansoddol cyfredol, a bydd yn berthnasol i weithgareddau cyd-fuddsoddi'r Bartneriaeth. Mae'n bwysig bod unigolion yn meddu ar lefel 'briodol' o wybodaeth a dealltwriaeth o'r gweithgareddau sy'n berthnasol i'w dyletswyddau o fewn y Bartneriaeth, ac yn cynnal y lefel hwnnw.	
ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?	**OES**

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb **OES**	Cyfreithiol **DIM**	Cyllid **DIM**	Materion Rheoli Risg **DIM**	Goblygiadau Staffio **DIM**
Polisi Lluniwyd cynllun hyfforddiant a fydd yn ddogfen ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiynau Cymru.				

YMGYNGORIADAU

Dylid cynnwys manylion am unrhyw ymgyngoriadau a wnaed yma.

Adran 100D o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 - Mynediad at Wybodaeth
Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:
MANYLIR AR Y RHAIN ISOD

Teitl y Ddogfen	Cyfeirnod Ffeil	Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN